**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Mr Philip Rycroft

19 Mawrth 2024

Annwyl Philip

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Gysylltiadau Rhynglywodraethol

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 13 Mawrth, i ddarparu tystiolaeth ar ein hymchwiliad i gysylltiadau rhynglywodraethol. Roedd eich mewnwelediad fel Comisiynydd ar ran Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (y Comisiwn) a'ch cyfoeth o brofiad fel gwas sifil yn addysgiadol iawn.

Oherwydd diffyg amser, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu gofyn rhai o'r cwestiynau yn ystod y sesiwn. Byddem yn ddiolchgar felly i glywed eich barn ar y canlynol:

- A ydych yn teimlo y byddai'r mecanwaith datrys anghydfod yn decach pe bai'n ymgorffori dyfarnwr annibynnol ar gyfer ymdrin â materion cyllidol gan gynnwys y rhai sy'n codi o'r fframwaith cyllidol?
- Roedd adroddiad terfynol y Comisiwn yn argymell y dylai Senedd Cymru ddeddfu ar gyfer mecanweithiau rhynglywodraethol er mwyn sicrhau dyletswydd o gydweithredu a pharch cydradd rhwng llywodraethau'r DU. Sut y byddech yn rhagweld y byddai hyn yn gweithio a sut y byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng pob llywodraeth?
- Dywedodd y Comisiwn y dylid sefydlu egwyddor lle gellir rheoli newidiadau cyllid a gadarnhawyd ar ôl digwyddiad cyllidol yr hydref ar draws y blynyddoedd ariannol. Pa mor bryderus yw natur anrhagweladwy cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru a pha mor effeithiol y gallai'r egwyddor hon fod ar gyfer rheolaeth ariannol yn eich barn chi?

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn ateb erbyn 26 Ebrill 2024.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.